# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

## Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

### DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

### WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

### A GYFLWYNWYD / TABLED ON

### 16/03/01

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2001-0005 Goblygiadau Gorsaf Bw^er Niwclear yr Wylfa o Safbwynt Diogelwch/Safety Implications of Wyfla Nuclear Power Station

07 Feb 2001 Raised by Mick Bates, John Griffiths LLB

4 Subscribers:

Janet Davies
Peter Black
Kirsty Williams
Ron Davies

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi'r Concordat diweddar rhwng yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cydnabod bod gan y Cynulliad ddiddordeb mewn materion o ddiogelwch niwclear oherwydd yr effaith y gallai damwain niwclear ei chael ar yr amgylchedd.*

*Mae'r Cynulliad hefyd yn nodi bod gorsaf bw^er niwclear yr Wylfa ar gau ar hyn o bryd ar ôl*

*dod o hyd i ddiffygion yng ngwaith weldio cynhwysydd pwysedd yr adweithydd.*

*Mae’r Cynulliad yn galw ar y Gweinidog Ynni i holi’r Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear ynghylch goblygiadau diogelwch ailagor yr Wylfa, a sicrhau bod gwybodaeth am holl agweddau diogelwch niwclear yng Nghymru ar gael i’r cyhoedd.*

*The National Assembly notes the recent Concordat between the Health and Safety Executive and the National Assembly for Wales recognising that the Assembly has an interest in issues of nuclear safety because of the impact a nuclear accident could have on the environment.*

*The Assembly also notes that Wylfa nuclear power station is currently closed following the discovery of defects in welds in the reactor pressure vessel.*

*The Assembly calls on the Energy Minister to question the Nuclear Installations Inspectorate about the safety implications of reopening Wyfla, and ensure that information relating to all aspects of nuclear safety in Wales is made public.*

## Amendments

A01 14 Mar 2001 Raised by Cynog Dafis, Jocelyn Davies, Elin Jones

10 Subscribers

Janet Davies
Owen John Thomas MA
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Rhodri Glyn Thomas
Brian Hancock
Helen Mary Jones
Pauline Jarman
Geraint Davies
Janet Ryder
Dafydd Wigley

*I’w hychwanegu ar y diwedd*

*"Yn datgan ei farn na ddylid comisiynu pwerdai niwclear newydd yn y DG ond ei bod yn briodol i’r pwerdai niwclear sy’n bod barhau i gynhyrchu trydan tra bod modd dangos bod hynny’n ddiogel."*

*To add at the end*

*"Register its view that no new nuclear power stations should be commissioned in the UK but*

*that it is appropriate for existing nuclear power stations to continue to generate electricity as long as this can be shown to be safe."*

## OPIN-2000-0029 Hil-laddiad yr Armeniaid / Genocide of the Armenians

21 Mar 2000 Raised by Rhodri Glyn Thomas

14 Subscribers:

- Brian Hancock
- Phil Williams
- Richard Edwards
- Dafydd Wigley
- Gareth Jones
- Janet Ryder
- Cynog Dafis
- Helen Mary Jones
- Geraint Davies
- Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
- Elin Jones
- Owen John Thomas MA
- Peter Black
- Kirsty Williams

*Yr ydym ni sydd â'n henwau isod yn:*

*1. Cydnabod gwirionedd hil-laddiad yr Armeniaid a ddigwyddodd dan lywodraeth Twrci yn 1915.*
*2. Galw ar Dwrci I roi terfyn ar eu gwarchae economaidd ar weriniaeth Armenia.*
*3. Pwyso ar senedd Prydain I beidio cefnogi cais Twrci ar gyfer aelodaeth I'r Undeb Ewropeaidd hyd nes eu bod yn cydnabod y gwirionedd yr hil-laddiad yn 1915, yn ogystal â rhoi terfyn ar y gwarchae economaidd.*

*We the undersigned:*

*1. Recognise the genocide of the Armenians, which happened under the Turkish Government in 1915.*
*2. Call upon Turkey to cease the economic sanctions of the Republic of Armenia.*
*3. Call upon the British Government not to support Turkey's application for membership of the*

*European Union until they have recognised the genocide in 1915 and have ceased the economic sanctions.*